

# YSGOLORIAETH BENSÆRNIAETH £1500

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion

1 – 8 Awst 2020

Cefnogwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er mwyn hybu pensaernïaeth a dylunio yng Nghymru. Dyfemir yr ysgoloriaeth i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ehangu ei ymwybyddiaeth o bensaernïaeth greadigol.

Bydd yr ysgoloriaeth yn agored i'r sawl dan 25 oed ar 31 Awst 2020, a aned yng Nghymru neu sydd o dras Gymreig, neu a fu'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn y dyddiad hwnnw, neu sy'n medru siarad neu ysgrifennu Cymraeg.

Ysgoloriaeth i'w dal am flwyddyn yn unig yw hon a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn £1,500 i hyrwyddo gyrfa.

Bydd hawl gan y detholwyr i atal yr ysgoloriaeth neu i'w rhannu rhwng mwy nag un ymgeisydd.

Disgwylir i bob ymgeisydd baratoi portffolio digidol ar USB neu ddisg ac ystyfir dangos y gwaith a gyflwynwyd yn Y Lle Celf yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol.

Disgwylir i enillydd yr ysgoloriaeth gyflwyno traethawd gwledol i'w arddangos yn yr Eisteddfod ganlynol.

Croesewir ceisiadau o feysydd pensaernïaeth, tirlunio a dylunio. Dehonglir y gair pensaernïaeth yn y modd ehangaf. Yn ogystal, croesewir ceisiadau gan rai nad ydynt yn benseiri cymwysedig neu'n fyfyrwyr pensaernïaeth.

Detholwyr: Ffion Lanchbury (Rio Architects) a Gethin Wyn Jones (Ainsley Gommon Architects).

### AMODAU ARBENNIG

#### 1. Pwy sy'n cael ymgeisio?

Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r rhai o dan 25 oed ar 31 Awst 2020, a aned yng Nghymru neu ag iddynt rieni o Gymru, neu a fu'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn y dyddiad hwnnw, neu sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg.

#### 2. Ffurflenni cais a thâl

£10.00 yw'r tâl cystadlu. Gwahoddir ymgeiswyr i anfon portffolio digidol ar USB neu CD caeedig y mae modd ei ddarllen ar blatfform Mac a PC. Mae'r mathau o ffeiliau sy'n dderbyniol yn cynnwys PDF (Acrobat Reader), Word, PowerPoint, Quicktime, AVI, JPEG, PICT, EPS, GIFs, HTML, Flashmovie a Director Projector. Defnyddir monitor 72dpi i wyllo'r ffeiliau. Fel canllaw, ni ddylai'r ffeiliau fod yn fwy nag 1mb. Os defnyddir fformat gwefan, yr unig wefan plugin sy'n dderbyniol yw Flash, Shockwave a Quicktime. Dylid sicrhau bod pob dolen gyswllt yn gweithio a bod modd agor y ffeiliau yn hwylus. Yn ogystal, dylid cyflwyno cais yn esbonio sut y bwriedir defnyddio'r ysgoloriaeth. Cyfyngir pob cais i 18 tudalen maint A1 ac uchafswm o chwe chynllun.

#### 3. Sut i gystadlu

Anfonwch £10.00, y ffurflen gais wedi ei chwblhau ynghyd â'r USB neu'r ddisg at:

**Swyddog Celfyddydau Gwledol, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU 029 2074 1709 / 07787 550017**

Sieciau wedi'u croesi'n daladwy i:

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020**

#### 4. Yswiriant

Cynghorir ymgeiswyr i yswirio unrhyw USB neu ddisg a anfonir i Swyddfa'r Eisteddfod. Cymerir pob gofal o unrhyw waith y rhoddir derbynneb amdano ac fe fydd yr Eisteddfod yn yswirio'r gweithiau o'r adeg y'u cesglir nes iddynt gael eu dychwelyd at eu perchnogion.

#### 5. Gwybodaeth gyffredinol

a) Mae'r ysgoloriaeth yn ddarostyngedig i'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol ac i'r Amodau Arbennig hyn. Rhestrir y Rheolau Cyffredinol yn y Rhestr Testunau, sydd ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod.

b) Rhaid i'r gwaith fod yn waith dilys yr ymgeisydd, ac ni ddylai fod wedi ei arddangos mewn unrhyw Eisteddfod Genedlaethol flaenorol.

#### 6. Hawlfraint

Bydd hawlfraint pob gwaith yn eiddo i'r ymgeisydd ond ceidw'r Trefnyddion yr hawl i atgynhyrchu unrhyw waith mewn unrhyw lawlyfr neu wefan perthynol i'r Eisteddfod ac i ganiatáu cyhoeddi lluniau o'r cyflwyniad. Gall unrhyw waith gael ei ddefnyddio at bwrpas cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod.

#### 7. Cydnabod Ceisiadau

Cydnabyddir ceisiadau drwy e-bost.

#### 8. Dychwelyd yr USB neu'r ddisg

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi gynnwys amlen bwrpasol gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd yr USB neu'r ddisg.

#### 9. Dyfarniad y detholwyr

Bydd dyfarniad y detholwyr yn derfynol.

#### 10. Ysgoloriaeth Bensaernïaeth

Mae'r arian a gynnigir fel Ysgoloriaeth Bensaernïaeth i'w ddefnyddio at hyrwyddo gyrfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus brofi i'r Eisteddfod y gwerir yr arian yn unol â'r amod hon

#### 11. Dyddiad cau

Ar gyfer derbyn yr USB neu'r ddisg, ffurflen gais a thâl cystadlu: 14 Mawrth 2020.

### Cymhwyster

(Rhoddwch X wrth y brawddegau perthnasol)

1. Fe'm ganed yng Nghymru
2. Yr wyf o dras Gymreig
3. Yr wyf wedi byw / gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 31 Awst 2020
4. Yr wyf yn siarad / ysgrifennu Cymraeg
5. Dyddiad geni

### DERBYNNEB (Swyddfa yn unig)

Derbyniwyd eich cais i'w gyflwyno at sylw detholwyr yr Ysgoloriaeth Bensaernïaeth. Derbyniwyd £10.00 fel tâl ymgeisio.

Arwyddwyd:

Dyddiad:

Rhif cais:

## Ysgoloriaeth Bensaernïaeth

Enw:

Cyfeiriad:

Ffôn:

e-bost:

### Sut i ymgeisio

Anfoner at sylw'r Swyddog Celfyddydau Gwledol

- Ffi o £10.00
- Ffurflen gais wedi ei chwblhau
- USB neu ddisg yn cynnwys y gwaith (dim mwy na chwe chynllun)
- Amlen neu label gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd yr USB neu ddisg

**Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, CAERDYDD, CF14 5DU**

**Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais: 14 Mawrth 2020**

**Ymholiadau: Swyddog Celfyddydau Gwledol  
yllelcef@eisteddfod.org.uk 029 2074 1709 / 07787 550017**